CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
5 MAWRTH 2014, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL: Cynghorwyr A Holmes, S Hughes, N Jones, A Evans, R Davies, A Mummery (Cyngor Sir), J Evans (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng R Edwards, D I Roberts, M Jones (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng A Holmes yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 5 Chwefror 2014. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir Cyng N Jones yn cynnig a Cyng R Davies yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Star (llwybr)** - Darllenwyd copi o penderfyniad cynllunio Dol Fraint sydd yn cynnwys amod (7) "Rhaid i'r ymgeisydd dalu am ac adeiladu wrth fodd yr Awdurdod Cynnlunio Lleol, droedffordd 1.8 metr o led ar hyd y cyfan o ffin y safle datblygu gyda'r briffordd siriol a chwblhau'r gwaith cyn i neb symud i mewn i'r annedd" Gofynnwyd i'r Clerc ofyn i'r Cyngor Sir ystyried gorfodi yr ymgeisydd i gwneud y gwaith
4.2	**Gor-yrru Star** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
4.3	**Cyflymder Penmynydd** - Dywedodd y Clerc, yn dilyn sgwrs gyda'r Cyngor Sir, bod y Cyngor wedi gwrthod gwahoddiad i siarad gyda'r Cyngor Cymuned oherwydd bod yr orchymyn yn arbrofol a bydd y Cyngor Cymuned yn cael cyfle i rhoi syniadau ymlaen cyn i'r gorchymyn dod i ben. Yn dilyn gwrthwynebiadau lleol penderfynwyd cynnal cyfarfod cyhoeddus. gofynwyd i'r Clerc cysylltu a'r Cyngor Sir i cynnig gwahoddiad i swyddogion y Cyngor ar dyddiad sydd yn gyfleus i'r Cyngor Sir
5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon**
	Cynllunio
5.1	Penderfyniad cais cynllunio Dol Fraint - gweler 4.1
	Cyfarwyddiaeth Datblygu Cynaliadwy
5.2	Ymgynghori Cyhoeddus: Adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa - Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol - bydd y Clerc yn anfon y linc at yr aelodau
	Prif Weithredwr
5.3	Grant Meysydd Chwarae - mae'r Clerc wedi anfon y gwybodaeth at pwyllgor y maes chwarae
6	**Gohebiaeth Ychwanegol**
	Dim
	Llofnod **Cadeirydd** **02.04.14**

7	**MATERION ARIANNOL**
	Penderfynwyd talu y canlynnol
7.1	Aelodaeth Un Llais Cymru £60.00
7.2	Costau y Clerc £50.00
7.3	Anglesey Computer Solutions £520.00
7.4	Ceisiadau Ariannol - Papur Menai, yr Urdd (Rhanbarth Mon), Childrens Cancer Support Group £40 yr un.
7.5	Cytunwyd na fydd unrhyw gyfyngiad o hyn ymlaen ar costau y Clerc. Cyng N Jones yn cynnig a Cyng A Holmes yn eilio
8	**MATERION ERAILL**
	Dim
	Llofnod **Cadeirydd** **02.04.14**